TAG UG A SAFON UWCH LLYWODRAETH A GWLEIDYDDIAETH

Crynodeb o'r penderfyniadau a dadansoddiad o'r ymatebion i'n hymgynghoriad ar ddiwygio TAG, UG a Safon Uwch Llywodraeth a Gwleidyddiaeth i'w haddysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2017

Crynodeb o'r penderfyniadau a dadansoddiad o'r ymatebion i'n hymgynghoriad ar ddiwygio TAG, UG a Safon Uwch Llywodraeth a Gwleidyddiaeth i'w haddysgu am y tro cyntaf yn 2017

Crynodeb Gweithredol

Rhwng 4 Ebrill a 15 Mai 2016, ymgynghorodd Cymwysterau Cymru ar gynigion ar gyfer y cymwysterau UG a Safon Uwch diwygiedig mewn Llywodraeth a Gwleidyddiaeth i'w Cymeradwyo i'w haddysgu am y tro cyntaf yng Nghymru o fis Medi 2017. Mae copi o gynigion a chwestiynau'r ymgynghoriad ar gael yn linc yma.

Ym mis Gorffennaf 2016, gwnaethom gyhoeddi Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TAG UG a Safon Uwch Llywodraeth a Gwleidyddiaeth[1], a nododd y gofynion manwl ar gyfer sut y dylid dylunio ac asesu'r cymhwyster diwygiedig. Caiff y gofynion eu llywio gan yr ymatebion i'n hymgynghoriad ar-lein a chan safbwyntiau a fynegwyd gan ddysgwyr drwy ymarfer ymgysylltu ategol.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion a gawsom i'r ymgynghoriad ar y cynigion ac yn egluro'r penderfyniadau a wnaed gennym o ystyried yr ymatebion hyn, a adlewyrchir yn y Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TAG UG a Safon Uwch Llywodraeth a Gwleidyddiaeth.

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg ac yn Gymraeg. Mae sylwadau wedi cael eu cyfieithu, lle bo'n briodol, yn unol â iaith yr adroddiad.

Mae canrannau yn yr adroddiad hwn wedi cael eu talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf.

Cefndir

Caiff cymwysterau UG a Safon Uwch Llywodraeth a Gwleidyddiaeth eu diwygio yng Nghymru i'w haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2017, fel rhan o raglen ehangach o ddiwygiadau i gymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch. Yr unig gorff dyfarnu a fydd yn datblygu ac yn cynnig y cymwysterau UG a Safon Uwch diwygiedig mewn Llywodraeth a Gwleidyddiaeth yng Nghymru fydd CBAC, gan mai dyma'r unig gorff dyfarnu sydd wedi cytuno i ddatblygu cymwysterau UG a Safon Uwch diwygiedig wedi'u cynllunio'n benodol i'w dyfarnu yng Nghymru.

Datblygwyd y cynigion y gwnaethom ymgynghori arnynt drwy ymgysylltu â nifer o randdeiliaid, gan gynnwys corff dyfarnu CBAC, ysgolion a sefydliadau addysg bellach (SABau), sefydliadau addysg uwch (SAUau) a Llywodraeth Cymru.

Ymatebion i'r ymgynghoriad

Cwblhaodd cyfanswm o un ar ddeg o ymatebwyr yr ymgynghoriad ar-lein cyfan, neu ran ohono, ar gyfer y cymwysterau UG a Safon Uwch Llywodraeth a Gwleidyddiaeth. O'u plith, nododd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr eu bod yn athrawon neu'n ddarlithwyr. Nododd un ymatebwr ei fod yn perthyn i'r categori "arall".

[1] Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TAR Llywodraeth a Gwleidyddiaeth

Crynodeb o'r cynigion a'r penderfyniadau

Nodau ac amcanion pwnc

Cynigiwyd cyfres o nodau ac amcanion gennym ar gyfer y cymwysterau diwygiedig. Yn y Meini Prawf Cymeradwyo, rydym wedi gwneud rhai mân ddiwygiadau i eiriad terfynol y nodau a'r amcanion pwnc er mwyn gwneud y datganiadau yn fwy eglur.

Cynnwys pwnc

Gwnaethom gynnig y cynnwys pwnc lefel uchel yn yr ymgynghoriad. Ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad, gwnaethom ddatblygu cynnwys manylach yn seiliedig ar y themâu pwnc hyn.

Amcanion asesu a phwysoliadau

Gwnaethom gynnig cyfres o amcanion asesu a'u pwysoliadau, rydym wedi gwneud mân ddiwygiadau i eiriad a phwysoliadau'r amcanion asesu er mwyn sicrhau eglurder.

Asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau

Fel y cynigiwyd gennym, caiff y cymhwyster ei asesu'n gyfan gwbl drwy arholiadau ysgrifenedig yn unig.

Nodau ac amcanion pwnc

Ar gyfer y cymwysterau TAG diwygiedig mewn Llywodraeth a Gwleidyddiaeth, cynigiodd Cymwysterau Cymru y nodau a'r amcanion pwnc canlynol:

Rhaid i Safon Uwch Llywodraeth a Gwleidyddiaeth alluogi dysgwyr i wneud y canlynol:

- meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth hyddysg o strwythurau a materion gwleidyddol cyfoes yn eu cyd-destun hanesyddol, yn y Deyrnas Unedig (DU) ac yn rhyngwladol;
- meithrin ymwybyddiaeth feirniadol o natur newidiol gwleidyddiaeth a'r cydberthnasau rhwng syniadau, sefydliadau a phrosesau gwleidyddol;
- meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth hyddysg o'r dylanwadau a'r buddiannau sy'n cael effaith ar benderfyniadau ym maes llywodraeth a gwleidyddiaeth;
- meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth hyddysg o'r hawliau a chyfrifoldebau unigolion a grwpiau;
- meithrin y gallu i ddadansoddi, dehongli a gwerthuso gwybodaeth wleidyddol mewn ffordd feirniadol er mwyn dadlau a dyfarnu;
- ymddiddori mewn gwleidyddiaeth gyfoes ac ymwneud â hi.

Mewn perthynas â'r nodau a'r amcanion pwnc, gwnaethom ofyn y canlynol:

> ***Cwestiwn 1a: I ba raddau rydych yn cytuno/anghytuno â'r nodau pwnc arfaethedig ar gyfer y cymhwyster Safon Uwch diwygiedig mewn Llywodraeth a Gwleidyddiaeth yng Nghymru?***

Fel y dangosir yn Siart 1 isod, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr (63%) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig, ac roedd y gweddill (36%) yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

Siart 1. Ymatebion i gwestiwn 1 yr ymgynghoriad ar TAR Llywodraeth a Gwleidyddiaeth.



- O blith yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig, nododd un ymatebwr fod "gormod [...] o gynnwys pwnc".
- O blith yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r cynnig, nododd ymatebwyr y canlynol
    - "Rwyf yn pryderu bod cyfeiriadau at hanes wedi'u cynnwys yn y nodau".,
    - "mae'r cyd-destun hanesyddol yn ddryslyd".

Fel y dangosir isod, rydym wedi gwneud nifer o fân ddiwygiadau i eiriad y nodau a'r amcanion pwnc, sy'n cynnwys dileu'r cyfeiriadau at gyd-destunau hanesyddol, er mwyn gwneud y datganiadau yn fwy eglur. Caiff y rhain eu hadlewyrchu yn y ddogfen gyhoeddedig Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TAG UG a Safon Uwch Llywodraeth a Gwleidyddiaeth.

1. Rhaid i fanylebau UG a Safon Uwch Llywodraeth a Gwleidyddiaeth alluogi dysgwyr i feithrin y canlynol:

    1.1. gwybodaeth a dealltwriaeth o strwythurau a materion gwleidyddol cyfoes yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig (DU);

    1.2. gwybodaeth a dealltwriaeth o strwythurau a materion gwleidyddol byd-eang ehangach;

1.3. gwybodaeth a dealltwriaeth o'r dylanwadau a'r buddiannau sy'n cael effaith ar benderfyniadau ym maes llywodraeth a gwleidyddiaeth;

1.4. gwybodaeth a dealltwriaeth o hawliau a chyfrifoldebau unigolion a grwpiau;

1.5. ymwybyddiaeth o natur newidiol gwleidyddiaeth a'r cydberthnasau rhwng syniadau, sefydliadau a phrosesau gwleidyddol;

1.6. y gallu i ddadansoddi, dehongli a gwerthuso gwybodaeth wleidyddol mewn ffordd feirniadol er mwyn dadlau a gwneud dyfarniadau;

1.7. diddordeb mewn gwleidyddiaeth gyfoes ac ymwneud â hi.

Cynnwys Pwnc

Ar gyfer y cymhwyster UG a Safon Uwch diwygiedig mewn Llywodraeth a Gwleidyddiaeth, cynigiodd Cymwysterau Cymru y dylai'r cynnwys pwnc fod yn seiliedig ar y meini prawf pwnc cyfredol. Gwnaethom gynnig hefyd fod yn rhaid i'r fanyleb;

- ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr astudio'r themâu canlynol:
  - llywodraeth yng Nghymru, y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd;
  - cyfranogiad gwleidyddol yng Nghymru, y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd;
  - syniadau gwleidyddol gan gynnwys; rhyddfrydiaeth, ceidwadaeth, sosialaeth, comiwnyddiaeth, cenedlaetholdeb, ffeministiaeth ac amgylcheddaeth;
  - llywodraeth a gwleidyddiaeth Unol Daleithiau America (UDA)
  - gwleidyddiaeth fyd-eang a chysylltiadau rhyngwladol.
  - ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddeall y rhyngberthnasau rhwng y gwahanol feysydd astudio a meithrin ymwybyddiaeth o'u harwyddocâd.

Mewn perthynas â'r cynnwys pwnc, gwnaethom ofyn y canlynol:

Cwestiwn 1b: I ba raddau rydych yn cytuno/anghytuno â'r cynnwys pwnc arfaethedig ar gyfer y cymhwyster Safon Uwch diwygiedig mewn Llywodraeth a Gwleidyddiaeth yng Nghymru?

Fel y dangosir yn Siart 2 isod, roedd 45% o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig, roedd 45% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf ac nid oedd y gweddill, sef 9% o ymatebwyr, yn cytuno nac yn anghytuno.

Siart 2. Ymatebion i gwestiwn 1b yr ymgynghoriad ar TAR Llywodraeth a Gwleidyddiaeth.



- O blith y pump ymatebwr a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig, nododd un ymatebwr ei fod "wrth ei fodd yn gweld pwyslais ar Lywodraeth yng Nghymru a Chyfranogiad gwleidyddol yng Nghymru".
- O blith y pump ymatebwr a oedd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r cynnig, mynegodd rhai ymatebwyr bryder am y cynnwys ychwanegol.

Mae'r gofyniad o ran cynnwys pwnc yn y Meini Prawf Cymeradwyo yn adlewyrchu'r themâu pwnc a gynigiwyd gennym. Yn dilyn yr ymgynghoriad, rydym wedi ychwanegu cynnwys manylach sy'n gydnaws â'r themâu hyn ac wedi cynnwys rhywfaint o ddewis o ran pa syniadau gwleidyddol y mae angen eu hastudio. Er bod pryderon o ran faint o gynnwys fyddai yn y cymwysterau newydd, rydym wedi pwyso a mesur pa gynnwys y dylid ei gynnwys, sy'n galluogi i'r dysgwr astudio ystod o themâu pwnc ar ddyfnder priodol.

Amcanion asesu a phwysoliadau

Ar gyfer y cymhwyster UG a Safon Uwch diwygiedig mewn Llywodraeth a Gwleidyddiaeth, gwnaethom gynnig yr amcanion asesu a'r pwysoliadau canlynol:

Amcan	Gofynion	Safon UG	Safon A2	Safon Uwch lawn
AA1	Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sefydliadau, prosesau, cysyniadau, damcaniaethau a materion gwleidyddol perthnasol.	49%	34%	40%
AA2	Deall a dehongli gwybodaeth wleidyddol er mwyn creu a chyfleu dadleuon ac esboniadau.	20%	20%	20%
AA3	Dadansoddi a gwerthuso'r meysydd llywodraeth a gwleidyddiaeth a astudiwyd er mwyn nodi ffactorau cyffelyb, cysylltiadau a gwahaniaethau sy'n arwain at gasgliadau rhesymegol.	31%	46%	40%

Tabl 1. Yn dangos yr amcanion asesu a'r pwysoliadau arfaethedig ar gyfer y cymhwyster UG a Safon Uwch diwygiedig mewn Llywodraeth a Gwleidyddiaeth.

Fel rhan o'n hymgynghoriad, gwnaethom ofyn y canlynol:

Cwestiwn 2: I ba raddau rydych yn cytuno/anghytuno bod pwysoliadau arfaethedig yr amcanion asesu yn briodol ar gyfer y cymwysterau UG a Safon Uwch mewn Llywodraeth a Gwleidyddiaeth?

Fel y dangosir yn Siart 3 isod, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr (63%) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig, ac roedd y gweddill (36%) yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

Siart 3. Ymatebion i gwestiwn 2 yr ymgynghoriad ar TAR Llywodraeth a Gwleidyddiaeth.



- O blith yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig, nododd un ymatebwr fod ganddo "amheuon gan fod y geiriau 'understand' a 'comprehend' yn Saesneg yn golygu'r un peth i raddau helaeth. 'interpret' ac 'apply' yn fwy priodol ar gyfer AA2".
- O blith y pedwar ymatebwr a oedd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r cynnig, nododd un ymatebwr bod “gormod o bwyslais ar wybodaeth ar lefel UG. Ymddengys fod AA2 ac AA3 wedi cyfnewid. Byddai ffigurau cyfan yn fwy rhesymegol".

Rydym wedi gwneud rhai diwygiadau i'r amcanion asesu a'r pwysoliadau y gwnaethom ymgynghori arnynt. Gwnaed y diwygiadau hyn er mwyn sicrhau bod geiriad yr amcanion yn eglur ac y gellir asesu pwysoliadau'r amcanion asesu yn briodol. Rydym wedi cynnwys yr amcanion asesu a'r pwysoliadau canlynol (Tabl 2) yn y ddogfen gyhoeddedig Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TAG UG a Safon Uwch Llywodraeth a Gwleidyddiaeth (2016).

Amcan	Gofynion	Pwysoliad		
		UG	A2	Safon Uwch
AA1	Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sefydliadau, prosesau, cysyniadau, damcaniaethau a materion gwleidyddol perthnasol.	40-50%	30-40%	30-40%
AA2	Dehongli a chymhwyso gwybodaeth wleidyddol er mwyn nodi ac egluro tebygrwydd, gwahaniaethau a chysylltiadau perthnasol.	20-30%	25-35%	25-35%
AA3	Dadansoddi a gwerthuso'r meysydd llywodraeth a gwleidyddiaeth a astudiwyd er mwyn llunio dadleuon, llunio barn a gefnogir gan ffeithiau a dod i gasgliadau.	30-40%	35-45%	35-45%

Tabl 2. Yn dangos yr amcanion asesu a'r pwysoliadau cyhoeddedig ar gyfer y cymwysterau UG a Safon Uwch diwygiedig mewn Llywodraeth a Gwleidyddiaeth.

Asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau

Cynigiwyd gennym y caiff y cymhwyster UG a Safon Uwch diwygiedig mewn Llywodraeth a Gwleidyddiaeth ei asesu'n llwyr drwy arholiadau ysgrifenedig yn unig.

Fel rhan o'n hymgynghoriad, gwnaethom ofyn y canlynol:

Cwestiwn 3: I ba raddau rydych yn cytuno/anghytuno y dylai'r cymhwyster Safon Uwch Llywodraeth a Gwleidyddiaeth gael ei asesu'n llawn drwy arholiadau ysgrifenedig?

Dengys Siart 4 isod fod 82% o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig, gyda'r 18% sy'n weddill yn anghytuno.

Siart 4. Ymatebion i gwestiwn 3 yr ymgynghoriad ar TAR Llywodraeth a Gwleidyddiaeth.



- O blith yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig, nododd un "Nid wyf yn deall beth y gallai o ddifrif ei gyflawni o ran gwleidyddiaeth na ellid ei gyflawni llawn cystal drwy arholiadau".
- O blith yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig, nododd un "dylid cynnwys elfen asesu llafar er mwyn profi sgiliau dadlau a deall".

Mae'r ddogfen gyhoeddedig *Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TAR Llywodraeth a Gwleidyddiaeth (2016)*[1] yn adlewyrchu'r cynnig.

Cymorth ac Adnoddau

Ym mhob un o'n hymgynghoriadau, gwnaethom ofyn y cwestiwn canlynol:

Pa gymorth ac adnoddau y gall fod eu hangen ar ganolfannau ac athrawon er mwyn bod mor barod â phosibl i gyflwyno'r fanyleb ddiwygiedig yn eich barn chi? Rhowch sylwadau

Ymhlith pethau eraill, tynnodd y rheini a ymatebodd i'r cwestiwn hwn sylw at y canlynol:

- yr angen i ddarparu gwerslyfrau ac adnoddau eraill (gan gynnwys adnoddau ar gyfer cyfansoddiad Cymru, llywodraeth leol ac ati)
- digwyddiadau DPP
- hyfforddiant HMS

[1] Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TAR Llywodraeth a Gwleidyddiaeth

- papurau enghreifftiol

Byddwn yn rhannu'r pwyntiau a godwyd â'r corff dyfarnu, consortia a Llywodraeth Cymru.

Yr effaith ar unigolion â nodweddion gwarchodedig

Ym mhob un o'n hymgynghoriadau, gwnaethom ofyn y cwestiwn canlynol:

Nodwch isod a allai unrhyw ran o'r cynnig hwn gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar unigolion â nodweddion gwarchodedig a ph'un a fyddai unrhyw ran o'r cynnig yn peri problemau o ran hygyrchedd i ddysgwyr yng Nghymru.

Ar gyfer yr ymgynghoriad ar y cymhwyster TAR diwygiedig mewn Llywodraeth a Gwleidyddiaeth, ni thynnodd unrhyw ymatebwyr sylw at unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol ar unigolion â nodweddion gwarchodedig.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:

Ymholiadau
Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2
Pencarn Lane
Imperial Park
Coedkernew
Casnewydd
NP10 8AR

Ymholiadau@cymwysteraucymru.org